

PWYLLGOR	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	26ain Mehefin, 2018
PWNC	Diweddariad ar ddarpariaeth O365 i Aelodau
AWDURON	Huw Ynyr a Bryn Goodman Jones

1. Yn ystod cyfarfod diwethaf y pwyllgor, fe adroddwyd yn ôl ar y peilot a sefydlwyd i gyflwyno e-bost Aelodau drwy gyfrwng cwmwl Microsoft – O365.
2. Nodwyd yn ystod y cyfarfod bod cynrychiolaeth y peilot yn hapus gyda'r ddarpariaeth newydd, er bod ambell broblem wedi bod ar hyd y ffordd, a'u bod yn awyddus i ymledu'r ddarpariaeth ym mhellach, gan gychwyn gydag aelodaeth y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.
3. Bellach, mae 22 o Aelodau'n defnyddio'r cyfrwng newydd. Fe gysylltwyd ac oll o aelodaeth y pwyllgor hwn, gyda'r rhan helaethaf yn mudo i'r ddarpariaeth newydd. Cnewyllyn bychan sydd dal heb fudo a bydd hyn yn cael ei wneud cyn gynted gall yr Aelodau ddod i gyswllt gyda'r Gwasanaeth TG.
4. Nodwyd bod ambell broblem wedi codi yn ystod y peilot, yn benodol:
 - a. Problemau technegol gyda rhai darparwyr rhyngwyd ble roedd angen newid gosodiad (rheswm technegol – rhyng-gipiad DNS)
 - b. Nid oedd pecyn yr iaith Gymraeg ar gyfer Microsoft Office yn gweithio, ond fe weithiwyd gyda Microsoft i gael datrysiad
 - c. Swyddogion Cyngor Gwynedd yn methu agor calendrau'r Aelodau (datrysiad technegol – gosod UPN y swyddogion i'w cyfeiriad e-bost yn hytrach na rhif cyflog)
5. Mae naw Aelod wedi manteisio ar gael mynediad i'w e-byst o ddyfeisiadau personol, gyda phump yn defnyddio iPhone, dau gydag iPad a'r ddau arall yn defnyddio ffôn symudol Android.
6. Oni bai am y man problemau gafwyd ar y cychwyn, does dim anfantais dros ddefnyddio'r gwasanaeth newydd, tra bod yna fanteision di-ri:
 - a. Defnyddio Outlook yn lle Mail i dderbyn/gyrru e-byst
 - b. Cysgeir wedi integreiddio gydag Outlook a'r gallu felly i gywiro gramadeg a sillafu Cymraeg
 - c. Dim cyfyngiadau ar fynediad at e-byst o ddyfeisiadau personol
 - d. Y gallu i rannu calendrau gyda defnyddwyr allanol
 - e. Copi wrth gefn ar gyfer ffeiliau personol
7. Byddwn yn edrych am gadarnhad bod y ddarpariaeth sydd wedi ei gyflwyno, bellach yn addas i'w raedru i weddill o'n Aelodau.

8. Mae wedi dod yn amlwg drwy weithio'n agosach gyda'r Aelodau bod ystod hyder a phrofiad y defnyddwyr yn eang ac y gall ambell garfan fanteisio gyda hyfforddiant perthnasol. Cynigir bod y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth yn cydweithio gyda Cefnogaeth Gorfforaethol ac Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i greu darpariaeth hyfforddi.
